

202- Rhif (Cy.)

PRIFFYRDD, CYMRU

**GORCHYMYN CEFNFFORDD CAER I
FANGOR (YR A55) (GWELLIANT
AILALINIO CYFFYRDD 14 A 15 A'R
FFYRDD YMUNO AC YMADAEL)**
202-

Gwnaed

202-

Yn dod i rym

202-

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 10 o Ddeddf Priffyrd 1980⁽¹⁾, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Cychwyn, Enwi a Dehongli

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar ***** 202- a'i enw yw "Gorchymyn Cefnffordd Caer i Fangor (yr A55) (Gwelliant Ailalinio Cyffyrrdd 14 a 15 a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) 202-".

2. Yn y Gorchymyn hwn—

Gwneir pob mesuriad pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

202- No (W.)

HIGHWAYS, WALES

**THE CHESTER TO BANGOR TRUNK
ROAD (A55) (JUNCTIONS 14 AND 15
IMPROVEMENT REALIGNMENT AND
SLIP ROADS) ORDER**
202-

Made

202-

Coming into force

202-

The Welsh Ministers, in exercise of powers conferred by section 10 of the Highways Act 1980⁽¹⁾, make this Order.

Commencement, Title and Interpretation

1. This Order comes into force on ***** 202- and its title is "The Chester to Bangor Trunk Road (A55) (Junctions 14 and 15 Improvement Realignment and Slip Roads) Order 202-".

2. In this Order—

All measurements of distance are measured along the route of the relevant highway;

⁽¹⁾ 1980 (p. 66). Yn rhinwedd erthyl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

⁽¹⁾ 1980 (c.66). By virtue of S.I.1999/672 article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales

- (i) ystyr “y plan a adneuwyd” (“*the deposited plan*”) yw'r plan sy'n dwyn y rhif HA10/2 WG16 ac sydd wedi ei farcio “Gorchymyn Cefnffordd Caer i Fangor (yr A55) (Gwelliant Ailalinio Cyffyrdd 14 a 15 a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) 202-”, wedi ei lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru ac wedi ei adneuo (cyf qA1376607) yn Llywodraeth Cymru, yr Uned Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion, Parc Cathays, Caerdydd;
 - (ii) ystyr “y gefnffordd newydd” (“*the new trunk road*”) yw'r briffordd sydd i'w hadeiladu ar hyd y llwybrau a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;
 - (iii) ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd Caer i Fangor (yr A55).
 - (i) “the deposited plan” (“*y plan a adneuwyd*”) means the plan numbered HA10/2 WG16 and marked “The Chester to Bangor Trunk Road (A55) (Junctions 14 and 15 Improvement Realignment and Slip Roads) Order 202-”, signed on behalf of the Welsh Ministers and deposited (ref qA1376607) at the Welsh Government, Information and Records Management Unit, Cathays Park, Cardiff;
 - (ii) “the new trunk road” (“*y gefnffordd newydd*”) means the highway to be constructed along the routes described in the Schedule to this Order;
 - (iii) “the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means The Chester to Bangor Trunk Road (A55).

Prifforedd sydd i ddod yn gefnffordd

3. Bydd y briffordd newydd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei hadeiladu ar hyd y llwybrau a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn dod yn gefnffordd o'r dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym.

4. Dangosir llinell ganol pob darn o'r gefnffordd newydd â llinell ddu drom ar y plan a adneuwyd.

Highway to become trunk road

3. The new highway which the Welsh Ministers propose to construct along the routes described in the Schedule to this Order shall become trunk road as from the date when this Order comes into force.

4. The centre line of each length of the new trunk road is indicated by a heavy black line on the deposited plan.

Signed on behalf of the Welsh Ministers

Date

202-

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiad 202-

NICCI HUNTER

Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

NICCI HUNTER
Business Team Leader
Welsh Government

YR ATODLEN

LLWYBRAU'R GEFNFFORDD NEWYDD

Mae llwybrau'r gefnffordd newydd yng Nghymuned Tref Llanfairfechan ym Mwrdeistref Sirol Conwy fel a ganlyn:-

1. Darn o'r gefnffordd, sy'n dechrau wrth bwynt 566 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwyt cyffordd bresennol Cylchfan Llanfairfechan (wedi ei farcio ag A ar y plan a adneuwyd) ac sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 1075 o fetrau ar hyd y ffordd ddeuol, hyd at bwynt 508 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwyt cyffordd bresennol Cylchfan Llanfairfechan (wedi ei farcio â B ar y plan a adneuwyd).
2. Darn o'r gefnffordd, sy'n dechrau ar gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd, wrth bwynt 456 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwyt cyffordd bresennol Cylchfan Llanfairfechan (wedi ei farcio ag C ar y plan a adneuwyd), ac sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 445 o fetrau ar hyd y ffordd ymadael tua'r dwyrain hyd at ei chyffordd â ffordd gyswllt trosbont aml lefel y gefnffordd a ddisgrifir yn 6. isod (wedi ei marcio â D ar y plan a adneuwyd).
3. Darn o'r gefnffordd, sy'n dechrau ar ffordd gyswllt trosbont aml lefel y gefnffordd a ddisgrifir yn 6. isod (wedi ei marcio â D ar y plan a adneuwyd) ac sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 404 o fetrau ar hyd y ffordd ymuno tua'r dwyrain hyd at ei chyffordd â cherbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd (wedi ei marcio ag E ar y plan a adneuwyd).

SCHEDULE

ROUTES OF THE NEW TRUNK ROAD

The routes of the new trunk road are in the Community of the Town of Llanfairfechan in the County Borough of Conwy as follows:-

1. A length of the trunk road, commencing at a point 566 metres south west of the centre point of the existing Llanfairfechan Roundabout junction (marked A on the deposited plan) and extending north eastwards for a distance of 1075 metres along the dual carriageway to a point 508 metres north east of the centre point of the existing Llanfairfechan Roundabout junction (marked B on the deposited plan).
2. A length of the trunk road, commencing on the eastbound carriageway of the trunk road, at a point 456 metres south west of the centre point of the existing Llanfairfechan Roundabout junction (marked C on the deposited plan) and extending north eastwards for a distance of 445 metres along the eastbound exit slip road to its junction with the trunk road grade separated overbridge link road described as 6. below (marked D on the deposited plan).
3. A length of the trunk road, commencing on the trunk road grade separated overbridge link road described as 6. below (marked D on the deposited plan) and extending north eastwards for a distance of 404 metres along the eastbound entry slip road to its junction with the eastbound carriageway of the trunk road (marked E on the deposited plan).
4. A length of the trunk road, commencing on the westbound carriageway of the

4. Darn o'r gefnffordd, sy'n dechrau ar gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd, wrth bwynt 308 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwyt cyffordd bresennol Cylchfan Llanfairfechan (wedi ei farcio ag F ar y plan a adneuwyd) ac sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o 333 o fetrau ar hyd y ffordd ymadael tua'r gorllewin hyd at ei chyffordd â ffordd gyswllt trosbont aml lefel y gefnffordd a ddisgrifir yn 6. isod (wedi ei marcio ag G ar y plan a adneuwyd).
5. Darn o'r gefnffordd, sy'n dechrau ar ffordd gyswllt trosbont aml lefel y gefnffordd a ddisgrifir yn 6. isod (wedi ei marcio ag I ar y plan a adneuwyd) ac sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o 435 o fetrau ar hyd y ffordd ymuno tua'r gorllewin hyd at ei chyffordd â cherbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd (wedi ei marcio â J ar y plan a adneuwyd).
6. Darn o ffordd gyswllt trosbont aml lefel y gefnffordd, sy'n dechrau wrth ochr ogledol strwythur trosbont y gefnffordd (wedi ei marcio â D ar y plan a adneuwyd) ac sy'n ymestyn i gyfeiriad y de am bellter o 127 o fetrau hyd at ei chyffordd â Ffordd Penmaenmawr sydd wedi ei hailalinio (wedi ei marcio ag H ar y plan a adneuwyd).

trunk road, at a point 308 metres north east of the centre point of the existing Llanfairfechan Roundabout junction (marked F on the deposited plan) and extending south westwards for a distance of 333 metres along the westbound exit slip road to its junction with the trunk road grade separated overbridge link road described at 6. below (marked G on the deposited plan).
5. A length of the trunk road, commencing on the trunk road grade separated overbridge link road described at 6. below (marked I on the deposited plan) and extending south westwards for a distance of 435 metres along the westbound entry slip road to its junction with the westbound carriageway of the trunk road (marked J on the deposited plan).
6. A length of the trunk road grade separated overbridge link road, commencing at the northern side of the trunk road overbridge structure (marked D on the deposited plan) and extending southwards for a distance of 127 metres to its junction with the realigned Penmaenmawr Road (marked H on the deposited plan).